# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Cyfyngiadau ar drafodion a recriwtio etc. gan awdurdodau sy'n uno*

## 30 Cyfarwyddydau o dan adran 29(1): atodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan adran 29(1).

(2) Caniateir rhoi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r canlynol—

(a) un awdurdod sy'n uno;

(b) dau awdurdod penodedig neu ragor;

(c) awdurdodau o ddisgrifiad penodedig.

(3) Caiff person a bennir fel person y mae'n ofynnol cael ei farn neu ei gydsyniad fod yn unrhyw awdurdod neu berson y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol, a chaiff hyn gynnwys Gweinidogion Cymru, unrhyw bwyllgor pontio ac unrhyw awdurdod cysgodol.

(4) Caiff cyfarwyddyd bennu personau gwahanol—

(a) mewn perthynas â materion gwahanol y mae'n ofynnol cael barn neu gydsyniad yn eu cylch;

(b) mewn perthynas â gwahanol awdurdodau sy'n uno neu ddisgrifiadau gwahanol o awdurdodau.

(5) Caiff cyfarwyddyd bennu, mewn perthynas â'r un gweithgaredd cyfyngedig, ofynion gwahanol mewn perthynas â thrafodion o werthoedd gwahanol.

(6) Caiff cyfarwyddyd bennu, mewn perthynas â recriwtio prif swyddog anstatudol neu ddirprwy brif swyddog—

(a) gofynion gwahanol mewn perthynas â lefelau gwahanol o gydnabyddiaeth ariannol arfaethedig;

(b) gofynion gwahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o swyddogion.

(7) Caniateir rhoi barn neu gydsyniad at ddibenion cyfarwyddyd mewn perthynas â thrafodiad penodol neu drafodion o unrhyw ddisgrifiad.

(8) Caniateir i unrhyw gydsyniad at ddibenion cyfarwyddyd gael ei roi yn ddiamod neu yn ddarostyngedig i amodau.

(9) At ddibenion cyfarwyddyd sy’n ymwneud â recriwtio prif swyddog anstatudol neu ddirprwy brif swyddog, caiff barn a roddir, neu amodau y mae cydsyniad yn ddarostyngedig iddynt, ymwneud yn benodol—

(a) â’r gydnabyddiaeth ariannol sydd i fod yn daladwy i berson sy’n cael ei recriwtio;

(b) â hyd penodiad.

(10) Mae unrhyw ddeddfiadau sy’n ymwneud â chaffaeliadau neu warediadau, ymrwymo i gontractau neu gytundebau, rhoi grantiau neu gymorth ariannol arall, rhoi benthyciadau, neu recriwtio neu benodi personau gan awdurdodau sy’n uno yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd.

(11) Mae cydsyniad sy’n ofynnol gan gyfarwyddyd yn ychwanegol at unrhyw gydsyniad sy’n ofynnol gan unrhyw un neu ragor o’r ddeddfiadau hynny.